

Mental Health/ Learning Disability Inspection

(Unannounced)

Rushcliffe Independent
Hospitals (Aberavon)
Limited: Ysbyty Rushcliffe

10 – 12 Chwefror 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg.....	6
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	8
4. Crynodeb.....	9
5. Canfyddiadau	11
Safonau Craidd	11
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	21
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	22
6. Y Camau Nesaf	23
Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel;
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol;
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol;
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth;
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl;
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau;
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial;

- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion ac
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y Clinigydd Cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio.
- Cyfweiliadau ag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl.
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth.
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau allweddol.
- Arsylwi ar yr amgylchedd.
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol.
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant.
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹.
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon a chofnodion atgyfeirio amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu dirybudd ag Ysbyty Rushcliffe, Aberafan, gyda'r nos ar 10 Chwefror a thrwy'r dydd ar 11 a 12 Chwefror 2015.

Cofrestrwyd Ysbyty Annibynnol Rushcliffe (Aberafan) ('Rushcliffe') gydag AGIC yn gyntaf ar 8 Gorffennaf 2009 ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gofal i 16 o gleifion gwrywaidd. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) ar gyfer unigolion sydd wedi cael prif ddiagnosis o salwch meddwl. Darparwr cofrestredig yr ysbyty yw Rushcliffe Independent Hospitals (Aberavon) Limited.

Yn ystod yr arolygiad dros dri diwrnod, gwnaethom adolygu'r ward, adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un Adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un Adolygydd Cymheiriaid, un Adolygydd Lleyg a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Amlygodd ein hymweliad ag Ysbyty Rushcliffe yr angen am welliant sylweddol a gwnaethom ganfod nifer o feysydd lle roedd angen camau gweithredu. Nid oedd lefelau staffio yn yr ysbyty yn ddigonol, yn arbennig pan wnaethom gyrraedd ar gyfer ein hymweliad gyda'r nos. Nid oedd y lefelau staffio'n unol â'r niferoedd a nodwyd yn Natganiad o Ddiben yr ysbyty dyddiedig Awst 2012, oedd yn nodi lefel staffio sylfaenol yn glir ac nad oedd yn cael ei gyflawni.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd rheolwr yr ysbyty wedi cyflwyno cais i gofrestru ag AGIC er gwaetha'r ffaith ei fod yn y swydd ers mis Rhagfyr 2014. Mae'n ofynnol bod AGIC yn derbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau o fewn 28 diwrnod i'n hymweliad.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty roedd dau glaf yn dangos ymddygiad heriol iawn ac roedd un claf wedi cael diagnosis oedd wedi'i hepgor o Ddatganiad o Ddiben yr ysbyty. O ganlyniad mae angen adolygu pa mor addas yw'r meini prawf derbyn i sicrhau bod pob derbyniad i Rushcliffe yn addas ar gyfer y gwasanaeth adsefydlu a bod yr ysbyty'n cadw at amodau ei gofrestriad.

O ran yr amgylchedd roeddem yn falch o weld safon glendid uchel iawn trwy'r ysbyty cyfan. Roedd y dodrefn a'r addurno o safon dda ac roedd y cyfleusterau ar gael i gleifion yn dda iawn, gan gynnwys ystafell gerddoriaeth gydag offerynnau, ystafell chwaraeon gyda bwrdd pŵl, campfa a dwy lolfa. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r cyfleusterau hyn yn ystod ein hymweliad ac ychydig iawn o weithgareddau dan do oedd yn digwydd.

Gwelsom nifer o bwyntiau clymu posib ledled y ward ac roedd yn amlwg nad oedd asesiad risg wedi ei gynnal. Roedd y drws i'r ystafell ymolchi wedi ei ddifrodi ac angen ei drwsio, yn ogystal â'r taflunydd teledu yn y lolfa y dywedodd y cleifion wrthym nad oedd wedi bod yn gweithio ers peth amser. Nid oedd unrhyw offer ar gael yn y baddon i roi cymorth i gleifion ag anabledau corfforol felly nid oedd pob claf yn gallu defnyddio'r adnodd hwn.

Ni allai pob claf gloi drws eu hystafell wely o'r tu mewn ac o ganlyniad roedd rhai cleifion yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel oherwydd gallai cleifion eraill gerdded i mewn heb wahoddiad. Mae angen ymgymryd ag adolygiad ac asesiad risg i sicrhau bod cleifion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd diffyg larymau diogelwch ar gyfer y staff ac ymwelwyr. Rhaid i bob aelod o staff ac ymwelwyr gael larwm er mwyn gallu galw am gymorth pe bai argyfwng.

Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ar gyfer y Clinigydd Cyfrifol gan ei fod ar alwad am bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar

adeg ein hymweliad. Yn ogystal, roedd unrhyw waith cyflenwi ar gyfer absenoldeb yn cael ei drefnu gan y Clinigydd Cyfrifol ei hun. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy ac mae angen ei hadolygu.

Roedd yr ysbyty ar ei hôl hi o ran hyfforddiant gorfodol ac mae angen ei ddiweddarau ar frys ac mae angen cyflwyno system ar gyfer goruchwylio staff yn rheolaidd. Mae angen diweddarau cofnodion digwyddiadau a chwynion hefyd gan fod yr wybodaeth y gwnaethom ei hadolygu'n dangos meysydd anghyflawn ac nid oedd yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol a allai alluogi penderfyniadau rheoli cadarn.

Roedd dogfennau cynllunio gofal yn amlygu meysydd sydd angen sylw a chymau gweithredu a chanfuwyd problemau mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Caiff y meysydd hyn eu trafod ymhellach yn yr adroddiad hwn.

Trwy gydol yr ymweliad gwelsom fod rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn dda.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Mae Ysbyty Rushcliffe ar lan y môr yn Aberafan. Mae'r adeilad ar un llawr ac mae mynediad i'r ysbyty trwy dderbynfa. Mae'r dderbynfa yn ardal fawr, olau gyda dwy ystafell ar gyfer ymwelwyr/cyfarfodydd ac ystafell ymgynghori i feddygon. Mae mynediad i'r ward trwy gyfrwng system aerglo sy'n arwain at fan agored ar ffurf atriwm. Roedd byrddau a chadeiriau yng nghanol yr ardal sy'n cael ei defnyddio fel ardal fwyta'r cleifion. O amgylch yr ardal fwyta roedd ffenest weini'r gegin, swyddfa'r nyrs, adnoddau cegin ar gyfer gwneud diodydd poeth a swyddfa arall.

Mae gan Rushcliffe un ward wedi ei rhannu'n ddwy gydag wyth ystafell wely en-suite ym mhob rhan. Nid oedd modd cau'r paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely o'r tu mewn, ac roedd rhai cleifion yn methu â chloi drysau eu hystafelloedd gwely, sydd wedi arwain at gleifion eraill yn cerdded i mewn i'w hystafelloedd heb wahoddiad. Dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt ddigon o le i storio eu heiddo eu hunain ac y byddent yn hoffi mwy o le. Roedd un ystafell ymolchi at ddefnydd y cleifion, ond roedd y baddon yn un domestig ac nid oedd offer codi nac unrhyw offer arall i roi cymorth i gleifion ag anabledau corfforol. Roedd drws yr ystafell wely wedi ei ddifrodi hefyd yn dilyn digwyddiad gyda chlaf a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi adrodd am hyn ers dros fis. Mae'n hanfodol bod problemau cynnal a chadw'n cael eu hadrodd ac yn cael sylw'n brydlon.

Bu un claf yn ddigon caredig i ddangos ei ystafell wely i ni ac fe wnaethom sylwi bod maint yr ystafell yn ddigonol, gydag ystafell gawod en-suite gyda thoiled. Dywedodd wrthym am broblemau gyda'r gwresogi a bod angen trwsio'i gawod. Dywedodd y claf wrthym ei fod wedi hysbysu'r staff am y problemau hyn ond nad oedd neb wedi edrych arnynt hyd yn hyn.

Mae gan yr ysbyty lawer o le a chyfleusterau gwych at ddefnydd y cleifion, gan gynnwys ystafell gemau oedd yn cynnwys bwrdd pŵl, ystafell gerddoriaeth gydag amrywiaeth o offerynnau, ystafell gyda chyfarpar campfa a ffôn talu. Roedd ystafell celf a chreffft oedd yn cynnwys digon o adnoddau ac yn arddangos gwaith celf y cleifion. Roedd ystafell ymolchi'n cael ei thrawsnewid yn stiwdio gwaith coed i'r cleifion. Roedd dwy lolfa at ddefnydd y cleifion, lolfa dawel gyda theledu, wyth cadair a phedair stôl a'r brif lolfa, oedd gyferbyn â'r ardal atriwm agored gyda golygfeydd dros y môr. Roedd tair cadair esmwyth a dwy stôl traed ac un bwrdd yn y brif lolfa. Roedd dwy

silff lyfrau'n cael eu defnyddio i gadw gemau bwrdd a llyfrau. Nid oedd y taflunydd fel sydd mewn sinema'n gweithio ac nid oedd wedi gweithio ers peth amser. Roedd hysbysfyrddau wedi'u gosod yn y brif lolfa oedd yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys amserlen ddyddiol, gwybodaeth am y stiwdio gwaith coed newydd a dyddiadau cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth. Roedd hysbysfwrdd cymunedol y cleifion yn dangos gwybodaeth am eiriolaeth, amserlenni bysys a blwch adborth/awgrymiadau cleifion. Roedd papurau newydd dyddiol yn cael eu darparu i gleifion eu darllen.

Roedd yr amgylchedd yn lân iawn ar y cyfan. Roedd safon y dodrefn a'r addurno'n dda ledled yr ysbyty ac roedd rhai lluniau ar y waliau yn y coridorau.

Argymhellion

Mae angen mynd i'r afael â nifer o broblemau cynnal a chadw gan gynnwys trwsio drws yr ystafell ymolchi a'r taflunydd. Mae angen ymateb yn briodol hefyd i broblemau cynnal a chadw a hysbysir gan y cleifion.

Diogelwch

Yn ystod ein hymweliad gyda'r nos gwnaethom nodi bod y lefelau staffio'n annigonol. Roedd tri aelod o staff ar ddyletswydd ar gyfer deg o gleifion. Fe'n hysbyswyd gan y staff nad oeddent yn teimlo'n ddiogel pan nad oedd digon o staff ar ddyletswydd a bod lefelau staffio yn y nos wedi bod yn annigonol am gyfnod sylweddol, gyda dim ond un nyrs gofrestrdig a dau weithiwr cymorth ar gyfer deg o gleifion dros y pum sifft nos diwethaf. Dywedodd staff wrthym mai lefelau salwch, gwyliau blynyddol a dim taliadau goramser oedd yn bennaf gyfrifol am y diffyg. Cawsom gadarnhad fod yr ysbyty wrthi'n recriwtio staff banc a bod recriwtio cyffredinol yn digwydd yn barhaus.

Roedd y Datganiad o Ddiben dyddiedig Awst 2012 yn nodi y bydd Rushcliffe yn darparu isafswm o un nyrs gofrestrdig a phedwar gweithiwr cymorth ar gyfer rhwng wyth a 12 o gleifion. Roedd yn amlwg nad oedd yr ysbyty'n cadw at yr isafswm staffio hwn ac mae'n hanfodol bod adolygiad brys o lefelau staffio'n cael ei gynnal i sicrhau bod y broblem hon yn cael sylw er mwy diogelu cleifion a staff.

Yn ystod ein hymweliad gwnaethom leisio pryder ynghylch meini prawf yr ysbyty ar gyfer derbyn cleifion. Roedd claf yn cael ei drin a fyddai'n cael ei wahardd o'r ysbyty yn ôl y Datganiad o Ddiben oherwydd ei ddiagnosis. Cadarnhaodd yr ysbyty bod y diagnosis yn cael ei asesu a bod y claf yn addas ar gyfer yr ysbyty. Yn ogystal, roedd dau glaf a dderbyniwyd yn ddiweddar yn dangos ymddygiad heriol iawn a chyda lefelau staffio isel, roedd staff wedi lleisio pryder nad oeddent yn teimlo'n ddiogel, yn arbennig os oedd

angen rhwystro'r cleifion yn gorfforol. Mae angen i'r ysbyty adolygu'r sefyllfa hon a'u meini prawf ar gyfer derbyn er mwyn sicrhau nad yw wedi torri ei amodau cofrestru.

Roedd diffyg larymau personol/diogelwch ar gael i'r staff ac ymwelwyr. Mae'n hanfodol bod gan y staff sydd ar ddyletswydd ac unrhyw ymwelydd â'r ward larwm sy'n gweithio er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain ac eraill pe bai argyfwng.

Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ar gyfer y Clinigydd Cyfrifol. Ar adeg ein hymweliad cadarnhawyd bod y Clinigydd Cyfrifol mewn gwirionedd ar alwad 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos. Pan fydd y Clinigydd Cyfrifol yn cymryd gwyliau blynyddol mae ef ei hun yn trefnu i rywun weithio yn ei le. Argymhellir bod yr arfer hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gyflenwi 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos heb orfod dibynnu'n barhaol ar y Clinigydd Cyfrifol.

Argymhellion

Mae angen adolygu lefelau staffio ar frys i sicrhau bod y niferoedd sylfaenol o staff sydd ar ddyletswydd yn unol â'r Datganiad o Ddiben dyddiedig Awst 2012.

Mae angen adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyn i sicrhau bod pob derbyniad yn cyd-fynd ag amodau cofrestru'r ysbyty.

Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o larymau diogelwch i staff ac ymwelwyr i sicrhau diogelwch pawb pe bai argyfwng.

Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ar gyfer y Clinigydd Cyfrifol er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n ddigonol heb orfod dibynnu'n barhaol ar un unigolyn.

Y tîm amlddisgyblaeth

Gwnaeth mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol (TA). Mae'r grŵp TA yn newydd iawn ac mae'r ysbyty'n profi newidiadau ac o ganlyniad dywedodd y staff fod cyfarfodydd yn datblygu'n barhaus gan fod gan bawb syniadau gwahanol. Fodd bynnag, mae pob disgyblaeth yn cael ei chynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys.

Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y TA ac roedd y staff yn teimlo bod eu barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi gan ei gilydd.

Ar adeg ein hymweliad roedd un Therapydd Galwedigaethol ac un Seicolegydd yn yr ysbyty. Roedd y Seicolegydd yn cael ei chyflogi am 20 awr yr wythnos ac roedd yr uwch reolwyr yn ystyried cynyddu'r oriau a darparu seicolegwyr dan hyfforddiant i gefnogi'r gwaith mae'r ysbyty am ei gyflawni yn y maes hwn. Yn ogystal, dim ond un Clinigydd Cyfrifol oedd yn yr ysbyty ac mae'n gweithio pum diwrnod yr wythnos ac mae ar alwad yn y nos ac ar benwythnosau. Mae angen i'r ysbyty adolygu'r sefyllfa hon ac ystyried cyflogi cynorthwydd meddygol/meddyg iau i sicrhau parhad gofal yn absenoldeb y Clinigydd Cyfrifol.

Mae cyfarfodydd trosglwyddo gofal yn digwydd yn yr ysbyty a gwnaethom arsylwi ar gyfarfod trosglwyddo a nodi'r wybodaeth gynhwysfawr oedd yn cael ei rhannu gan y staff.

Argymhellion

Mae angen adolygiad i bennu nifer y disgyblaethau (Clinigydd Cyfrifol, Therapi Galwedigaethol a Seicoleg) a'r oriau sydd eu hangen ar yr ysbyty i ddarparu gwasanaethau adsefydlu digonol i gleifion.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd adborth cleifion am breifatrwydd ac urddas yn Rushcliffe yn gymysg, ac nid oedd gan rai cleifion unrhyw broblem gyda'r maes hwn. Dywedodd yr holl gleifion fod staff yn parchu eu preifatrwydd ac urddas trwy guro ar ddrws eu hystafell wely cyn mynd i mewn. Y broblem fwyaf a godwyd gan y cleifion oedd peidio â gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn. Dywedodd y cleifion wrthym am ddigwyddiadau pan oedd un claf yn benodol yn cerdded i mewn i ystafelloedd gwely heb wahoddiad. Dywedodd rhai cleifion eu bod yn teimlo'n ofnus oherwydd yr ymddygiad hwn, er bod staff yn ymdrechu i rwystro hyn rhag digwydd. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu bod hyn yn digwydd o ganlyniad i lefelau staffio isel.

Roedd cleifion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat, naill ai trwy ddefnyddio'r ffôn talu neu roedd gan rai ohonynt eu ffonau symudol eu hunain. Roedd ystafell ymwelwyr hefyd ar gael yn ardal y dderbynfa i gleifion gyfarfod â theulu a ffrindiau.

Gwnaethom nodi nad oedd digon o offer arbenigol ar gael i roi cymorth i gleifion ag anabledau corfforol, yn arbennig ar gyfer y baddon. Dylai Rushcliffe adolygu'r sefyllfa hon i sicrhau y gall unrhyw un ddefnyddio'r adnoddau a rennir heb orfod peryglu eu hurddas. Hefyd, cwynodd un claf bod ei wely'n anghyfforddus gan ddatgan nad oedd erioed wedi cysgu ynddo a'i fod yn cysgu mewn cadair. Mae angen i Rushcliffe adolygu'r sefyllfa hon i sicrhau bod yr adnoddau cywir yn cael eu darparu i gleifion er mwyn sicrhau nad oes perygl i ansawdd y gofal.

Cadarnhaodd claf ei fod wedi gorfod talu am ei drafnidiaeth ei hun gan nad oedd lle yng ngherbyd yr ysbyty i'w offer symudedd personol. Fel ysbyty adsefydlu, mae'n foddhaol bod cleifion yn cael yr opsiwn i dalu am eu trafndiaeth eu hunain i fynd i'r gymuned er budd eu hadferiad a'u goliau personol; fodd bynnag, nid yw'n foddhaol os yw claf yn gorfod talu am ei drafnidiaeth ei hun ar gyfer apwyntiadau pan fyddai cleifion eraill wedi cael eu cludo heb unrhyw gost. Rhaid i Rushcliffe adolygu'r sefyllfa hon i sicrhau bod pob claf yn cael eu trin yn gyfartal, bod adnoddau'r ysbyty, gan gynnwys cerbyd yr ysbyty, yn addas ar gyfer pob claf a darparu canllawiau eglur ar sut y dylid defnyddio cerbyd yr ysbyty.

Argymhellion

Mae angen cynnal asesiad o adnoddau'r ysbyty, yn arbennig y gwelyau a'r ystafell ymolchi i sicrhau bod yr holl offer angenrheidiol ar gael ac yn addas ar gyfer cleifion er mwyn iddynt eu defnyddio heb berygl i'w hurddas.

Rhaid cynnal adolygiad ac asesiad risg i sicrhau y gall cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn er mwyn cynnal ymdeimlad o ddiogelwch ac atal ymweliadau heb wahoddiad gan gleifion eraill.

Rhaid i'r ysbyty ddarparu adroddiad i AGIC ynghylch sut a phryd mae cleifion yn talu am eu trafndiaeth eu hunain a rhoi arweiniad clir i gleifion ar sut y dylid defnyddio cerbyd yr ysbyty.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd adnoddau ysbyty Rushcliffe ar gyfer gweithgareddau a therapïau cleifion yn ardderchog, gan gynnwys ystafell gerddoriaeth gydag offerynnau, ystafell gemau gyda bwrdd pŵl, ystafell celf a chreffft gydag adnoddau, campfa ac ar adeg ein hymweliad roedd ystafell ymolchi'n cael ei thrawsnewid yn stiwdio gwaith coed. Er bod yr adnoddau hyn yn cael eu darparu, nododd rhai aelodau o staff a chleifion nad oeddent yn cael digon o ddefnydd.

Cwynodd cleifion eu bod yn teimlo'n ddiflas a bod yr ystafelloedd gweithgareddau bob amser dan glo. Dywedodd un claf wrthym fod amserlen ar waith ar gyfer gweithgareddau, sy'n cynnwys sesiwn gemau bwrdd, sy'n blentynnaidd yn eu barn nhw. Nododd y claf fod yr ysbyty i fod ar gyfer adsefydlu ac y byddai'n hoffi bod allan yn gweithio ond nad oedd unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwaith gwirfoddol. Roedd y claf wedi gwneud cais am hyn ond nid oedd wedi cael ateb.

Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym nad oedd y gweithgareddau bob amser yn briodol, a dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt weld mwy o gyfleoedd therapiwtig/galwedigaethol i gleifion. Dywedodd y staff fod angen mwy o weithgareddau seiliedig yn y gymuned i rymuso'r cleifion. Nid oedd mynd i siopa'n ddigon ac oni bai bod digon o staff ar ddyletswydd, nid yw cleifion yn mynd allan. Cadarnhaodd trafodaethau â'r Dirprwy Gyfarwyddwr fod adeiladu gwell cysylltiadau cymunedol yn flaenoriaeth i Rushcliffe a bod llyfr gweithgareddau ar waith sy'n monitro'r hyn mae cleifion yn ei wneud er mwyn gallu cynllunio'n benodol ar gyfer hoffterau cleifion yn y dyfodol.

Yn ystod ein hymweliad gwnaethom arsylwi ar ddsbarth ymarfer corff dan arweiniad hyfforddwy allanol. Dim ond ychydig o gleifion oedd yn cymryd rhan, fodd bynnag roedd yr hyfforddwy yn annog y cleifion a dywedodd un claf wrthym ei fod wedi mwynhau'r sesiwn. Gwelsom gleifion yn mynd allan ac roedd rhai yn mwynhau ymweld â chaffi lleol. Dywedodd un claf wrthym yn frwd am y cwrs coleg y mae'n ei fynychu bob wythnos a dangosodd ei waith cwrs i ni.

Roedd un Therapydd Galwedigaethol yn gweithio yn yr ysbyty ac yn ystod ein hymweliad gwnaethom nodi sut roedd y Therapydd Galwedigaethol yn amlwasgio yn yr ysbyty, gan roi cymorth i gleifion pan oedd staff yn ymroi i ddyletswyddau eraill. Dywedodd y Therapydd Galwedigaethol wrthym am y newidiadau oedd yn digwydd er mwyn i'r ysbyty ddarparu gwasanaeth adsefydlu mwy effeithiol. Un newid o'r fath oedd cyflwyno stiwdio gwaith coed oedd yn cael ei hadeiladu ar adeg ein hymweliad.

Roedd yr holl gleifion yn yr ysbyty'n paratoi eu prydau bwyd eu hunain gyda'r nos, sef wy ar dost neu ffa pob ar dost fel arfer. Roedd y syniad hwn wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar ac roedd barn y cleifion yn gymysg am hyn. Roedd cleifion yn paratoi eu bwyd rhwng 4 p.m. a 5.30 p.m. bob dydd, a dywedodd rhai aelodau o staff wrthym fod dechrau'r broses hon am 4 p.m. yn torri ar draws amserlen weithgareddau'r cleifion, ac felly'n amharu ar y cyfleoedd hynny. Dywedodd y staff fod y broses hon yn rhy awdurdodus ac y byddai'n well petai cleifion yn rhannu rhai o'r tasgau oedd yn gysylltiedig â pharatoi pryd o fwyd a choginio un pryd mawr er mwyn i'r holl gleifion allu eistedd a chymdeithasu gyda'i gilydd.

Roedd y seicolegydd yn newydd yn y swydd ac wrthi'n sefydlu gwasanaeth cynhwysfawr. Ar adeg ein hymweliad roedd cleifion yn cael cyfraniad gan seicolegydd bob wythnos neu bob pythefnos. Siaradodd y seicolegydd am ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol i ddatblygu rhaglen therapïau ar gyfer yr ysbyty a chafodd hyn ei adleisio gan yr uwch reolwyr.

Roedd y staff yn cynnal arsylwadau corfforol ar y cleifion bob wythnos ac roedd gan y cleifion fynediad at feddyg teulu cyffredinol a gwasanaethau gofal iechyd eraill yn ôl yr angen. Ar adeg ein hymweliad roedd iechyd yn cael ei hyrwyddoed y ward.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o weithgareddau cleifion i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r grŵp cleifion a'u bod yn alwedigaethol a/neu'n seiliedig yn y gymuned lle bo'n bosibl er mwyn gwella'r model adsefydlu mae'r ysbyty'n ei hyrwyddo.

Mae angen adolygu'r drefn o baratoi a chydlynu'r pryd bwyd gyda'r nos i sicrhau nad yw'n effeithio ar yr amserlen weithgareddau ac nad yw'n awdurdodus.

Bwyd a maeth

Yn gyffredinol, roedd trafodaethau gyda chleifion ac aelodau staff yn dangos ymateb cadarnhaol am y bwyd oedd yn cael ei weini yn Rushcliffe. Nododd pob claf ac eithrio dau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r bwyd yn yr ysbyty. Roedd maint y dognau amser cinio yn hen ddigon a gwnaeth ein harsylwadau gadarnhau hyn. Roedd cinio'n cael ei weini am 12:30 ac roedd bwydlen yn cael ei harddangos ar fwrdd. Yn ystod ein hymweliad gwelsom sut roedd yr amser cinio'n cael ei drefnu. Roedd y byrddau'n cael eu gosod yn wael, nid oedd pupur a halen ar gael ac roedd cyllyll a ffyrc yn cael eu rhoi i'r cleifion yn hytrach nac yn cael eu gosod yn briodol i wella'r profiad o fwyta.

Roedd te'n cael ei baratoi gan y cleifion o 4 p.m. ymlaen. Fel y nodwyd uchod yn yr adroddiad hwn, roedd cleifion yn paratoi eu pryd gyda'r nos eu hunain. Dywedodd y staff nad oedd cymaint o fwyd ar gael yn ystod y pryd hwn, fodd bynnag dywedodd staff wrthym fod y sesiwn hwn yn dal i gael ei fireinio o ran sut mae'r sesiwn yn cael ei redeg. Argymhellir y dylai'r ysbyty adolygu'r sesiwn hwn i sicrhau bod gan gleifion ddigon o fwyd a bod y cleifion yn hoffi'r bwyd. Yn ogystal, dylid adolygu sut mae'r sesiwn yn cael ei drefnu a pha ganlyniadau mae'r ysbyty'n disgwyl sydd eu hangen i gleifion. Mae'r syniad bod cleifion yn paratoi a choginio eu bwyd eu hunain yn syniad da; fodd bynnag rydym yn pryderu bod disgwyl i bob claf baratoi bwyd ar yr un pryd. Dylid ystyried newid hyn.

Roedd gan gleifion adnoddau i brynu a storio eu bwyd eu hunain. Roedd mynediad at degell yn gyfyngedig; roedd rhaid i gleifion ofyn i gael jwg thermos wedi ei llenwi cyn y gallant wneud diodydd poeth. Roedd diodydd â chaffein ynddynt yn cael eu gwahardd ac roedd cleifion yn gorfod cael diodydd o'r fath ar adeg penodedig.

Er bod staff yn dweud bod dewisiadau o fwydydd amgen ar gael oherwydd alergeddau neu broblemau diet, dywedodd un claf wrthym nad oedd yn cael cynnig bwydydd amgen. Nid oedd y dewisiadau ar y fwydlen a gyflwynwyd yn addas ar gyfer ei alergeddau felly o fewn cyfnod o wythnos dim ond un pryd o fwyd y byddai'n ei fwyta. Rhaid i'r ysbyty edrych ar anghenion a gofynion diet cleifion i sicrhau bod y bwyd at ddant a gofynion pawb.

Argymhelliad

Rhaid i staff sicrhau bod gan gleifion sy'n paratoi eu prydau bwyd gyda'r nos ddigon i'w fwyta a bod y bwyd sy'n cael ei baratoi yn addas ar gyfer y claf.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg ffeil staff a gwnaethom nodi trefn daclus y ffeiliau. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth eang o wybodaeth cyflogaeth i gadarnhau penodiadau trwy broses agored, gan gynnwys ffurflen gais, nodiadau cyfweliad, swydd-ddisgrifiad, llythyr cynnig a geirdaon. Roedd gan yr holl ffeiliau dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gynnal ar ryw bwynt. Fodd bynnag, roedd chwech allan o ddeg ffeil yn cynnwys gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oedd dros dair blwydd oed. Ni chynhyrchwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod gwiriad cyfredol ar waith. Byddai AGIC yn argymhell cynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd rheolaidd i staff fel arfer da, oherwydd eu bod yn rhoi sicrwydd annibynnol a fyddai'n cynyddu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad unigolion.

Roedd pob ffeil a adolygwyd yn cynnwys arfarniad oedd wedi cael ei gynnal yn 2014. Dywedodd rhai aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent wedi cael arfarniad diweddar, fodd bynnag roedd y ffeiliau a adolygwyd gennym yn dangos eu bod i fod i gael eu cynnal rhwng mis Mawrth a mis Mai 2015. Roedd diffyg tystiolaeth bod staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Roedd y ffeiliau y gwnaethom eu hadolygu'n cynnwys cofnodion goruchwyllo dyddiedig 2013 a 2011 a dywedodd staff wrthym nad ydynt yn derbyn sesiynau goruchwyllo'n rheolaidd. Rhaid rhoi system ar waith sy'n gallu monitro a chofnodi cydymffurfio â goruchwyliaeth i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwyllo'n rheolaidd.

Roedd dadansoddiad o hyfforddiant gorfodol yn dangos bylchau sylweddol yn y rhaglen hyfforddiant. Roedd hyfforddiant mewn rhai meysydd ar ei hôl hi gan gynnwys Hyfywedd Meinwe a Gofal Pwysedd; Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed; Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Tân. Dywedodd ymron i bob aelod o staff y buom yn siarad â nhw nad oeddent wedi derbyn cyfleoedd

hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae angen diweddarau'r holl anghenion hyfforddiant gorfodol i staff ar unwaith.

Gwnaethom adolygu chwe chŵyn a chanfod nad oedd dim un o'r cwynion yn dangos Ymchwiliad Cwyn Rhan B i ddangos pa gamau gweithredu oedd wedi cael eu cymryd a'r casgliad. Roedd gan ymron i bob cynw yn adolygwyr gennym ymatebion ar ffeil oedd wedi mynd heibio'r cyfnod ymateb o bum diwrnod gwaith a nodir ym mholisi Rushcliffe. Roedd rhesymau am yr oedi'n cael eu nodi yn y llythyrau ond, gyda chymaint o ymatebion hwyr mae angen i'r ysbyty adolygu'r broses i sicrhau ei fod yn cadw at ei bolisi.

Mewn perthynas ag un gŵyn roedd llythyr o gydnabyddiaeth ar ffeil yn cyfeirio at drafodaeth oedd wedi digwydd, ond nid oedd nodyn wedi ei atodi i'r cofnod yn y ffeil yn nodi canlyniad y drafodaeth. Felly nid oedd yn glir beth oedd canlyniad y gŵyn. Hefyd, nid oedd llyfr cofnodi cwynion ar waith i ddarparu golwg gyffredinol/crynodeb o'r holl gwynion a dderbyniwyd hyd yn hyn a sefyllfa bresennol y cwynion hynny. Dylid cadw cofnod cynhwysfawr o gwynion, gan gynnwys canlyniadau a chasgliadau, i sicrhau cadw at amserlenni fel sy'n cael eu nodi ym mholisi Rushcliffe.

Gwnaed adolygiad o gofnodion digwyddiadau a gwnaethom ganfod nad oedd y llyfr digwyddiadau'n cyfateb i'r digwyddiadau ar ffeil. Nid oedd rhai o'r digwyddiadau wedi cael eu hymchwilio a dylai AGIC fod wedi cael ei hysbysu am rai digwyddiadau trwy brosesau Rheoliad 30 a 31. Rhaid ymgymryd â dadansoddiad o'r holl ddigwyddiadau i sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw risgiau.

Argymhelliad

Mae angen system reolaidd a strwythuredig i staff dderbyn goruchwyliaeth.

Rhaid i'r holl staff dderbyn hyfforddiant gorfodol cyfredol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.

Mae angen cynnal adolygiad o'r weithdrefn gwyno i sicrhau ei bod yn cadw at bolisi'r ysbyty ar amserlenni ar gyfer ymateb.

Mae angen cwblhau pob rhan o'r ffurflen gwyno, yn arbennig Rhan B i ddangos datrysiad a chanlyniadau.

Dylid datblygu llyfr cwynion i gael golwg gyffredinol ar yr holl gwynion. Bydd monitro tueddiadau a phatrymau cwynion yn rhoi rhybudd cynnar i'r rheolwyr am broblemau systematig.

Mae angen diweddarau'r llyfr digwyddiadau i adlewyrchu'r ffurflenni digwyddiadau yn y ffeil a hysbysu AGIC am y digwyddiadau lle bo angen.

Mae angen dadansoddiad o'r holl ddigwyddiadau i sicrhau y rhoddir sylw i risgiau.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol deg o'r cleifion a oedd yn cael eu cadw yn Ysbyty Rushcliffe ar adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd Adran 62 yn cael ei chyflawni'n dda ac yn dangos tystiolaeth briodol

Gwnaethom ganfod problemau mewn nifer o feysydd ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid oedd y gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl a'r staff wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn y maes hwn
- Roedd swyddogaethau eraill yn amharu ar swyddogaeth y Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl ac roedd hyn yn effeithio ar ei gallu i weithio ar y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Nid oedd unrhyw graffu meddygol na gweinyddol ar ddogfennau
- Nid oedd tystiolaeth o hawliau Adran 132 yn y ffeiliau a adolygwyd gennym
- Roedd seibiant Adran 17 yn cael ei gyflawni'n dda, ond nid oedd dim cynnal a chadw o ran gweinyddu seibiant ar waith. O ganlyniad nid oedd seibiant oedd wedi mynd heibio wedi cael ei ganslo
- Roedd ansawdd y dogfennau'n amrywiol ac roedd dogfennau statudol ar goll mewn nifer o ffeiliau, nad oeddent wedi cael eu dilyn ar ôl derbyn i'r ysbyty
- Nid oedd ffurflen asesu galluedd yn y ffeil i ddangos galluedd cleifion ar wahân i ffurflenni CO2/CO3 a cheisiadau Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOADau).
- Nid oedd ffeiliau cleifion yn cael eu cadw dan glo

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaethau yn Rushcliffe, gan nodi'r canlynol:

- Roedd adolygiadau cynllunio gofal a thriniaeth yn hen.
- Nid oedd cynllun gofal a thriniaeth ar waith ar gyfer un claf
- Nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau pa ymdrechion sydd wedi cael eu gwneud i ddatrys oedi o ran cynlluniau gofal a thriniaeth
- Roedd gan rai cleifion anghenion emosiynol a chorfforol anodd ac roedd diffyg dyfnder a diffyg gwybodaeth i sicrhau bod gofal wedi ei ragnodi'n cael ei ddarparu
- Nid oedd dyddiadau adolygu Graddfeydd Deilliannau 'Health of the Nation' (HoNOS)² yn y dogfennau
- Pan oedd claf wedi gwrthod mynychu clinig wythnosol nid oedd tystiolaeth o'r ymchwil a wnaed er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gwiriadau corfforol
- Nid oedd neb wedi gweithredu yn dilyn nodiadau gan y tîm amlddisgyblaeth oedd yn cynnwys asesiadau risg penodol ar gyfer hunan niwed dair wythnos ynghynt. Mae angen mynd i'r afael â'r broses wasgarog hon rhwng argymhellion y TA a gweithredu.

Argymhellion

Mae angen mynd i'r afael â'r holl broblemau ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth, yn benodol i sicrhau bod dyddiad arnynt, eu bod ar waith i bob claf, ac yn ddarparu digon o wybodaeth sy'n rhoi sylw i anghenion yr holl gleifion. Mae angen ychwanegu dyddiadau adolygu HoNOS a'r TA i sicrhau bod argymhellion yn cael sylw.

² Graddfeydd Deilliannau 'Health of the Nation' - mae HoNOS yn raddfa i fesur statws iechyd a chymdeithasol pobl â salwch meddwl difrifol. Maent yn 12 graddfa syml a ddefnyddir gan staff clinigol i raddio defnyddwyr gwasanaethau sydd â salwch meddwl difrifol. Caiff y graddfeydd hyn wedyn eu storio a'u hailadrodd, er enghraifft dros gyfnod y driniaeth neu ryw ymyriad arall, ac wedyn eu cymharu. Os dengys y graddfeydd wahaniaeth, yna gallai hynny ddynodi bod iechyd neu statws cymdeithasol defnyddiwr gwasanaeth wedi newid. Maent felly wedi cael eu cynllunio i'w defnyddio dro ar ôl tro fel dull ar gyfer mesur canlyniadau clinigol. (www.rcpsych.ac.uk)

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Rushcliffe gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei Gynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r Cynllun Gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Rushcliffe yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr: Rushcliffe Independent Hospitals (Aberavon) Limited

Ysbyty: Ysbyty Rushcliffe

Dyddiad yr arolygiad: 10, 11 a 12 Chwefror 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu Rushcliffe	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	Mae angen mynd i'r afael â nifer o broblemau cynnal a chadw, gan gynnwys trwsio drws yr ystafell ymolchi a'r taflunydd dull sinema a phroblemau eraill mae'r cleifion wedi adrodd amdanynt.	26 (2) (a) a (b)	Cafodd drws yr ystafell ymolchi ei drwsio ar unwaith Mae'r taflunydd dull sinema wedi'i symud oddi yno, ac mae'r ystafell bellach yn cael ei defnyddio fel man gweithgareddau a lolfa hamdden gymunedol	Cynnal a chadw Rheolwr Cofrestredig	1.3.15 Parhaus
13	Mae'n rhaid adolygu'r lefelau staffio ar frys i	6 (3) a 20 (1) (a)	Rydym wedi cwblhau'r broses recriwtio gweithwyr	Rheolwr Cofrestredig a'r	Wedi'i gwblhau

	sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn cyd-fynd â'r lefelau sylfaenol a nodir yn y Datganiad o Ddiben dyddiedig Awst 2012.		cymorth, ac mae gennym ddigon o staff ar bob sifft, yn seiliedig ar faint o gleifion sydd yno ar hyn o bryd. Byddwn yn ychwanegu at ein proffil staff banc	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Parhaus
13	Mae angen adolygu'r meini prawf derbyn i sicrhau bod yr holl gleifion a dderbynnir yn unol â'r amodau cofrestru.	9 (1) (a) (b) 6 (1) a (3)	Mae ein meini prawf derbyn wedi'u hadolygu ar gyfer pob atgyfeiriad sy'n cael ei dderbyn, ac mae'r tîm amlddisgyblaethol yn trafod pa mor briodol yw'r asesiad, a chanlyniadau'r lleoli.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol (a'r tîm amlddisgyblaethol)	Chwefror 2015
13	Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod digon o larymau diogelwch ar gael i'r staff ac ymwelwyr i sicrhau diogelwch pawb pe bai argyfwng.	15 (1) (b) a 19 (1) (a) (b)	Mae'r ysbyty wedi cael mwy o larymau ac wedi atgyweirio'r larymau oedd wedi'u difrodi. Felly, gallwn sicrhau diogelwch pawb pe bai argyfwng	Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r tîm Cynnal a Chadw	1.5.2015

13	Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ar gyfer y clinigydd cyfrifol er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n ddigonol heb orfod dibynnu'n barhaol ar un clinigydd cyfrifol.	19 (1) (b) 20 (1) (a) (b)	Anfonwyd yr amserlen ar alwad i AGIC pan gyflwynwyd y cynllun gweithredu cyntaf, ac roedd yn dangos bod rheolwr yr ysbyty a'r cyfarwyddwr cynorthwyol ar gael wrth gefn ar wahanol ddyddiau o'r wythnos. Caiff yr amserlen ar alwad ei hadolygu bob pedair wythnos, ac mae'r clinigydd cyfrifol yn cael amser dynodedig o'r gwaith	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	1.5.2015
14	Mae angen adolygiad i bennu nifer y disgyblaethau (clinigydd cyfrifol, therapi galwedigaethol a seicoleg) a'r oriau sydd eu hangen ar yr ysbyty i ddarparu gwasanaethau adsefydlu digonol i gleifion.	15 (1) (a) 19 (1) (a) (b) a (2) (e) 20 (1) (a)	Mae'r tîm amlddisgyblaethol a'r cyfarwyddwr cynorthwyol wedi cynnal adolygiad, a nodwyd bod nifer digonol o ddisgyblaethau wedi eu pennu. Bydd y seicolegydd yn gweithio llawn amser o fis Mehefin 2015 ymlaen. Mae'r gwasanaethau therapi galwedigaethol eisoes yn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	1.6.2015

			gweithredu oriau llawn amser digonol i ddarparu gwasanaeth integredig		
	Mae angen cynnal asesiad o adnoddau'r ysbyty, yn arbennig y gwelyau a'r ystafell ymolchi, i sicrhau bod yr holl offer angenrheidiol ar gael ac yn addas ar gyfer cleifion er mwyn iddynt eu defnyddio heb berygl i'w hurddas.	15 (2) 18 (1) (a) (b) 26 (2) (c)	Cynhaliwyd archwiliad cyfarpar ac adnoddau llawn ar 29 Mai ar gyfer y gwelyau a'r offer arall yn yr ysbyty. Mae canllawiau ystafell ymolchi wedi'u prynu, ond nid ydynt wedi cael eu danfon eto. Byddai offer i bobl anabl yn cael ei nodi ar lefel leol a'i osod gan y tîm cynnal a chadw pe bai angen addasiadau corfforol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r tîm Cynnal a Chadw Therapydd Galwedigaethol	29.5.2015 1.2.2015
	Mae'n rhaid i'r ysbyty ddarparu adroddiad i AGIC ynghylch sut a phryd mae cleifion yn talu am eu trafndiaeth eu	15 (1) (a) (b) (c) 18 (1) (b) a (2) (b)	Nid oes yr un o'n cleifion yn talu am eu trafndiaeth eu hunain ar gyfer ymweliad â'r gymuned neu apwyntiadau ysbyty. Mae hyn wedi'i	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	1.6.2015

	<p>hunain, a rhoi arweiniad clir i gleifion ar sut y dylid defnyddio cerbyd yr ysbyty.</p>		<p>gynnwys yn eu costau presennol am eu lle.</p> <p>Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw deithiau ychwanegol nad ystyrir eu bod yn rhan o'u gofal therapiwtig, argymhellir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu ar gost yr unigolyn.</p>		
	<p>Rhaid cynnal adolygiad ac asesiad risg i sicrhau y gall cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn er mwyn cynnal ymdeimlad o ddiogelwch ac atal ymweliadau heb wahoddiad gan gleifion eraill.</p>	26 (2) (a)	<p>Mae cloeon wedi'u gosod ym mhob ystafell wely, ond gall y tîm nyrsio eu datgloi mewn achosion o argyfwng neu ar gyfer agweddau ar ddiogelwch.</p> <p>Bydd asesiad risg perthnasol yn cael ei gynnal ar gyfer pob claf er mwyn rhoi sicrwydd iddynt o breifatrwydd a diogelwch</p>	<p>Tîm Cynnal a Chadw</p> <p>Nyrsys Cofrestredig</p>	<p>1.6.2015</p> <p>Parhaus</p>

	<p>Mae angen adolygiad o weithgareddau'r cleifion i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r grŵp cleifion a'u bod yn alwedigaethol a/neu'n seiliedig yn y gymuned lle bo'n bosibl er mwyn gwella'r model adsefydlu mae'r ysbyty'n ei hyrwyddo.</p>	<p>15 (1) (a) (b) (c)</p>	<p>Cynhelir adolygiad o weithgareddau'r cleifion bob dydd lau yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Yn ystod y cyfarfod hwn, caiff yr holl anghenion unigol eu trafod, a thrafodir pa mor addas a phriodol yw'r gweithgareddau, ac yna caiff hyn ei weithredu neu ei gofnodi.</p> <p>Bydd y prif nyrs hefyd yn eistedd bob wythnos gyda'r cleifion ac yn trafod pob gweithgaredd perthnasol, ynghyd â chynlluniau gofal ac ymadweithiau.</p>	<p>Therapydd Galwedigaethol/ Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Tîm Nyrsys Cofrestredig</p>	<p>Yn ystod pob cyfarfod tîm amlddisgyblaethol</p> <p>Bob wythnos</p>
	<p>Mae angen adolygu'r arfer o baratoi a chydlynu'r pryd gyda'r nos i sicrhau nad yw'n effeithio ar yr amserlen weithgareddau ac nad yw'n awdurdodus.</p>	<p>15 (1) (a) (b) (c) a 19 (1) (a)</p>	<p>Mae'r cleifion yn mwynhau paratoi eu prydau bwyd eu hunain, ac yn teimlo wedi'u grymuso yn eu dewisiadau a'u hannibyniaeth</p>	<p>Gweithwyr Cymorth a'r tîm Nyrsys Cofrestredig</p>	<p>Parhaus</p>

18	Rhaid i staff sicrhau bod gan gleifion sy'n paratoi eu prydau bwyd gyda'r nos ddigon i'w fwyta a bod y bwyd sy'n cael ei baratoi yn addas ar gyfer y claf.	15 (1) (a) (b)	Mae ein harolwg cleifion yn ystod y cyfarfod cymunedol yn dangos bod ein cleifion i gyd yn fodlon ar faint dogn eu prydau bwyd. Caiff addasrwydd y dewisiadau o brydau bwyd eu pennu gan ba eitemau sydd ar gael/sy'n dymhorol ar gyfer eu paratoi	Therapydd Galwedigaethol	Mai 2015
19	Mae angen system reolaidd a strwythuredig i staff dderbyn goruchwyliaeth.	20 (2) (a)	Mae'r matrices goruchwyllo yn gyfredol, a chaiff hwn ei gadw yn ganolog gyda rheolwr yr ysbyty. Bydd yr holl staff goruchwyllo penodedig yn cael eu mentora gan reolwr yr ysbyty, yn rhan o broses barhaus	Rheolwr Cofrestredig	Parhaus
19	Rhaid i'r holl staff dderbyn hyfforddiant gorfodol cyfredol i sicrhau eu bod	20 (2) (a)	Mae'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, a	Rheolwr Cofrestredig a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Diwedd Awst 2015

	yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.		dylai'r holl staff fod yn gyfredol cyn bo hir. Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad		
19	Mae angen adolygiad o'r weithdrefn gwyno i sicrhau ei bod yn cadw at bolisi'r ysbyty ar amserlenni ar gyfer ymateb.	24 (1)	Cynhaliwyd adolygiad, ac mae'r cofnodion o gwynion bellach yn dangos y cwynion sy'n gyfredol a'r rhai sydd wedi dod i ben. Anfonir adroddiadau misol at y cyfarwyddwr gweithrediadau hefyd i'w hystyried, ynghyd ag unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach	Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Rheolwr Cofrestredig	1.6.2015
19	Mae angen cwblhau pob rhan o'r ffurflen gwyno, yn arbennig Rhan B, i ddangos datrysiad a chanlyniadau.	24 (2) a (5)	Rhan B hefyd yn cael ei chwblhau.	Rheolwr Cofrestredig	1.6.2015
19	Dylid datblygu llyfr cwynion i gael golwg gyffredinol ar yr holl	24 (5)	Mae'r is-grŵp llywodraethu clinigol yn canolbwyntio ar fonitro tueddiadau a	Y Tîm Amlddisgyblaethol/Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Parhaus

	gwynion. Bydd monitro tueddiadau a phatrymau cwynion yn rhoi rhybudd cynnar i'r rheolwyr am broblemau systematig.		phatrymau yn y cwynion, y digwyddiadau, ac unrhyw ddigwyddiadau a fu bron â digwydd, ar yr arferion gorau, ac ar y prosesau gwerthuso, a gwneir hynny bob dau fis. (neu yn gynnar os bydd argyfwng neu ddigwyddiad a fu bron â digwydd)		Bob dau fis
19	Mae angen diweddarau'r llyfr digwyddiadau i adlewyrchu'r ffurflenni digwyddiadau yn y ffeil a hysbysu AGIC am y digwyddiadau lle bo angen.	24 (5)	Mae'r cofnodion digwyddiadau wedi cael eu hadolygu, a chânt eu trafod yn ystod y cyfarfodydd llywodraethu	Y Tîm Amlddisgyblaethol/Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Parhaus
19	Mae angen dadansoddiad o'r holl ddigwyddiadau i sicrhau y rhoddir sylw i risgiau.	19 (2) (c) (i)	Bydd yr is-grŵp llywodraethu clinigol yn dadansoddi'r holl ddigwyddiadau ac yn eu hadrodd yn ôl i'r cyfarfod llywodraethu clinigol. Mae pob digwyddiad yn cael	Rheolwr Cofrestredig	Rheolwr Cofrestredig

			sylw yn syth gan y tîm staff trwy'r rheolwr cofrestredig		
22	Mae angen mynd i'r afael â'r holl broblemau ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth, yn benodol i sicrhau bod dyddiad arnynt, eu bod ar waith i bob claf, ac yn darparu digon o wybodaeth sy'n rhoi sylw i bob un o anghenion y cleifion. Mae angen ychwanegu dyddiadau adolygu HoNOS, ac mae angen i'r tîm amlddisgyblaethol sicrhau bod argymhellion yn cael sylw.	15 (1) (a) (b) (c) a 19 (1) (a) (b)	Mae cryn waith yn digwydd ar hyn o bryd i gwrdd â phob rheolwr achos ac ail edrych ar y cynllun gofal a thriniaeth er mwyn llunio cynllun clir ar y cynnwys a'r dyddiadau adolygu. Mae oedi o ran hyn gan y rheolwyr achos (nid staff yr ysbyty) Mae dyddiadau adolygu HoNOS wedi cael eu gweithredu a'u cwblhau gan y clinigydd cyfrifol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Rheolwr Cofrestredig Clinigydd Cyfrifol	Parhaus 1.6.2015
22	Nid oedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl na'r staff yn Rushcliffe wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn y maes hwn.	20 (2) (a) (b)	Mae rheolwyr yr ysbyty a'r clinigydd cyfrifol wrthi'n craffu ar yr holl waith papur meddygol iechyd meddwl, ac mae hyn yn digwydd ar ôl pob gwrandawriad rheolwyr		

	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd unrhyw graffu meddygol na gweinyddol ar ddogfennau • Nid oedd tystiolaeth o hawliau Adran 132 yn y ffeiliau a adolygwyd gennym • Roedd seibiant Adran 17 yn cael ei gyflawni'n dda, ond nid oedd dim cynnal a chadw o ran gweinyddu seibiant. O ganlyniad, nid oedd seibiant oedd wedi mynd heibio yn cael ei ganslo. • Roedd ansawdd y dogfennau'n amrywiol, ac roedd dogfennau statudol ar goll mewn nifer o ffeiliau, nad oeddent wedi cael eu dilyn ar ôl derbyn i'r ysbyty 		<p>ysbyty.</p> <p>Mae tystiolaeth o hawliau Adran 132 yn y ffeiliau.</p> <p>Mae'r feil seibiant Adran 17 wedi cael ei diweddarau.</p> <p>Mae rheolwyr yr ysbyty a'r tîm amlddisgyblaethol yn adolygu'r holl ddogfennau yn y ffeiliau.</p>		
--	---	--	---	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> Nid oedd ffurflen asesu galluedd yn y ffeil i ddangos galluedd cleifion ar wahân i ffurflenni CO2/CO3 a cheisiadau Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOADau) Nid oedd ffeiliau cleifion yn cael eu cadw dan glo 		<p>Mae'r clinigydd cyfrifol yn awr yn cwblhau asesiad galluedd generig ar dderbyn cleifion.</p> <p>Mae ffeiliau cleifion yn cael eu cadw dan glo.</p>		
22	Roedd swyddogaethau eraill yn amharu ar swyddogaeth gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac roedd hyn yn effeithio ar ei gallu i weithio ar y Ddeddf Iechyd Meddwl		Rydym wedi recriwtio derbynnydd newydd, ac felly bydd y gweinyddwr iechyd meddwl yn symud swyddfa ar 8 Mehefin 2015.		